Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6049

248

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 a 3 – 8. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 3.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.45

3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun Aer Glân

Dechreuodd yr eitem am 15.05

4 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2019

Dechreuodd yr eitem am 16.00

5 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019

Dechreuodd yr eitem am 16.35

NDM7216 – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2019.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.42

NDM7217 – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018-19.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.15

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019